W 2
2140

# CAN NEWYDD

O

YSTYRIAETH AR

*AMSER BYR DYN YN Y BYD HWN*

UNIV. COLL. OF WALES & MON. SALISBURY LIBRARY

a'r angenrheidrwydd o

DDIFRIFOL YSTYRIAETH

pa le y bydd ei

GARTREF TRAGWYDDOL;

YNGHYD A

Thrueni'r Colledigion yn Uffern,

A

Gwynfyd y Saint yn y Nefoedd.

---

*Gan OWEN EVANS.*

---

*TREFRIW:*
Argraphwyd gan I. Davïes.
1815.

*Cenir a'r Ddiniweidrwydd.*

DEFFRO f' enaid meddwl weithan,
P'le bydd dy drigfan yr ochr draw ;
Pa un a'i yn y nêf buredig,
A'i'n uffern ddychrynedig fraw :
I un o'r ddeule 'r wyt yn teithio,
Ac yn prysuro nôs a dŷdd ;
Etto 'n d' aros ar y ddaear
Ychydig iawn o amser sydd.

2.

Wele'r dydd y'mron a dyfod,
Y bydd darfod ar dy daith ;
Yn un o'r ddeule gwneir dy *setlo*,
I drigo i dragwyddoldeb maith ;
Naill a'i yn y nefoedd lawen,
Ynghwmni diddan deulu Duw,
Neu ymhlith y crôch gythreuliaid
Y byddi byth—o enaid clyw.

3.

Dwys ysyria y'mha lwybrau,
Mae dy hirion gamrau o hyd :
Pwy wyt yn ei wasanaethu,
Ac yn ei barchu yn y byd :
Cofia hyn, ti enaid anwir,
Ni watworir Brenhin nê' :
Peth hauo dŷn tra yn ei fywyd,
Hynny hefyd fêd efe. *Gal.* 6. 7, 8.

OC 35019245

4.

Dyma gwestiwn dwys i'w holi,
( Daw amser medi cyn bo hir, )
Beth yw hadau 'r hir flynyddau
A hauaist tithau yn dy dir :—
Os hau yr wyt i'th gnawd gwageddus
Chwantau pechadurus caeth,
Eu ffrwyth wnai dderbyn o wael adyn,
Yn arwa gwenwyn a fo gwaeth!

5.

Os hau yr wyt i'r yspryd grasol,
Hadau nefol yma 'n awr,
Trag'wyddol fywyd fedi hefyd ;—
Yn dy wynfyd bydd dy wawr :
Am hynny f' enaid bydd lafurus,
Gochel had gwageddus gau ;
Fe all mae fory byddi farw :—
Wele heddyw 'n dymor hau.

6.

Heddyw y'w dŷdd yr Iechydwriaeth,
Dŷdd cymeriaeth gyda Duw,
Dŷdd i gyfiawnhau'r annuwiol,
Dydd i'r marwol gaffael byw,
Dŷdd yw hwn i olchi'r 'r aflan,
Dydd i'r truan gael ei droi,
Dŷdd mae gweision Duw yn d' alw :—
Heddyw heddyw p'am na ddoi ?

7.

Dŷdd yw hwn mae haul yn t'wnu,
A Duw yn gwenu ar y gwan ;

Dydd i chwilio am y trysor,
Mae'n addo rhagor yn ein rhan;
Dydd i loffa erbyn gaua',
Dydd i ni farchnatta'n gall,
Dŷdd mae Duw yn addo'n addfwyn,
Dynnu'r gwenwyn a phob gwall.

8.

Dŷdd cymmodi, dŷdd priodi,
Dydd i gymdeithasau yw;
Dŷdd i alaru o achos pechu;
Dydd i lawenychu yn Nuw:
Os heddyw ydyw 'r dydd yn unig
I ochel ffyrdd morwynig ffôl,
Ni elli fory, 'rol it' farw,
Mwyach alw heddyw 'n ol.

9.

Tyr'd ar frŷs mae heddyw'n darfod
Wyt ti'n barod enaid gwan?
Ty'rd ar frŷs na fydd wâs diog;
Y nôs a'th luddias yn y man:
O ymwrola i redeg d' yrfa!
Mae'n ddiamau'n hwyr brydnhawn,
Er bod hi yn brydnhawngwaith tawel,
Wele 'r haul yn isel iawn.

10.

Mae haul dy fywyd bron a machlud,
Nôs ddu enbyd sy'n nesau;
Nôs daw angau i wneud gwasgarfa
Rhyngot ti a'th briddun brau,
Nos rhaid cychwyn, er maint dychryn

I rodio'r glỳn a'r dyffryn twyll ;
Nôs ni elli weithio mwyach :—
Cofia bellach cymer bwyll. *Eph.*5.11.

11.

Nos tramgwyddi heb oleuni,
Nôs y syrthi dros y sarn ;——
Mewn nôs bygddu cei'th garcharu
Nos a beru hyd ddydd barn,
Nos dragwyddol i'r annuwiol,
Nos o annioddefol nyth, *Dat*. 21. 8.
Nos o dân yn llosgi 'n chwerw,
Lle nad yw'r prŷf yn marw byth.

12.

Byth a noswaith drom ddiobaith,
I'r a'mherffaith alaeth yw
Byth heb obaith gweled seren,
Lloer nac wybren lawen liw
Byth mewn aethus d'wyllwch eitha';*
Yn ioddau plauau, gwauau a gŵg ;
Byth yngheudod pwll diwaelod †
Llawn gwiberod draigod drŵg.

13.

Byth mewn tlodi di dosturi,
O drueni yn ddidrai *Iago*. 2. 13.
Byth yn gwaeddi fflam i'm llosgi,
Byth i mhoeni am fy mai *Sac*. 16.24
Byth heb ddŵr i oeri tafod ;
Byth mewn nychdod yno 'n noeth.

---

*Mat, 22. 13. †Dat, 9, 10. 11, 12.

Byth yn Uffern agwedd egwan,
Mewn llyn o dân a brwmstan poeth.

14.

Ond etto 'rwyt tu yma i'r fflamau,
mewn gwlad mae trugareddau'n rhodd
A Duw gorucha 'n d'alw a'th feiau,
Atto i'w maddau tra mae môdd:
Anfon gweision a chenadon
Mae E'n dirion iawn bob dydd;—
A thithau 'n benffol ddyn annuwiol,
Etto'n esgusodol sydd.

15.

Dy wahodd maent i geisio heddwch,
Hyfryd degwch wyneb Duw ;
Dy wa'dd at unig anffaeledig,
Ffyddlon feddyg fel caet fyw :
Dy wa'dd i ymborthi ar y manna ;
Dy wa'dd i wledda i'r nefol wlâd,
At ddanteithion wneiff dy loni,
Sy'n cael ei rhoddi oll yn rhâd.

16.

Gwel'd dy faes a gwel'd dy fasnach
Etto 'n amgenach 'rwyt i'w gael
Na thrysorau pur y nefoedd,
Sy fwy o filoedd maith o fael:
Yno mae yr etifeddiaeth,
Bûr a helaeth, a beru o byd ;
Sy fyrdd fyrddiwn o fyrddiynau
Fwy eu gwerth na pherlau'r byd.

Yno mae y gwir lawenydd,
Cwmni dedwydd pur a da;
Pawb yn barchus a chysurus,
Heb yn glwyfus nac yn glâ;
Pawb mewn urddas wisg priodas,
Ynghymdeithas addas Crist,
Yn cydseinio haleluia,
Heb un troia wyneb trist.

18.

Mae yno ddechre bod yn llawen,
Er's miloedd o flynyddoedd maith,
Etto para mae eu gorfoledd,—
'Does sôn am ddiwedd ar eu gwaith:
Duw rho'th yspryd i'n sancteiddio,
A'n cymhwyso i'r nefoedd wen,
I gyduno hefo 'r dyrfa,
I ganmol Crist y meichiau Amen.

---

## HYMN.

MAE pob dydd pob nôs yn darfod,
Angau i'm daitod sy'n nesau;
Ond mae amser etto 'n dyfod,
Caf ddydd neu nôs byth i barhau:—
O am galon &c.
I ystyried hyn yn awr.

2.

Nes i drag'wyddoldeb heddyw,
Nes i farw nac erioed;
Nês i fyn'd i'r bedd i bydru,—
Nes i fynu o hono dd'ôd;
Nes i sefyll, &c.
O flaen gorsedd barn fy Nuw.

3.

Nes i glywed llef yr udcorn,
Yn galw 'r meirw o lwch y llawr;
Nês i weled Crist yn dyfod
Ar y cwmmwl goleu mawr:
O am galon, &c.
I garu ei ymddangosiad ef.

4.

Cyfod newyn ar eneidiau,
Rhai sy 'ngwlad y cibau 'n byw,
Ac yn ymlenwi yn foddlon hynod
A'r eu sorod gwael eu rhyw:
Duw dod newyn, &c.
I'w gyrru i ymofyn gwlad sy well.

5.

Agor lygaid ein meddyliau,
Dangos ini 'n trigfa drom;
Dangos bod ni ar ein gyrfa
A'n wynebau ar wlad lom:
O rhagflaena, o rhagflaena,
Tro'n wynebau ninau 'n ol.

DIWEDD.

UNIV. CO. N. WALES & MON. SALISBURY LIBRARY